

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/RE/3931/17

Nick Ramsay, AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Tachwedd 2017

Annwyl Nick

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS - Awst 2017
YMCHWILIAD AR REOLEIDDIO CYMDEITHASAU TAI
YMATEB I'R ADRODDIAD

Diolch am eich llythyr yn sôn am bryderon y Pwyllgor ynghylch derbyn yn rhannol Argymhelliad 1 yn yr adroddiad sy'n argymhell y dylai tîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru gael caniatâd i recriwtio'n allanol fel mater o drefn.

Mae recriwtio i'r tîm rheoleiddio yn cydymffurfio â pholisi recriwtio Llywodraeth Cymru ac, ar hyn o bryd, ni chredaf y dylai hyn gael ei newid. Rwyf wedi ystyried y pwyntiau a wnaed gennych yn eich llythyr ac, wedi edrych eto ar ein hymateb blaenorol, gallaf gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Nod ein polisi recriwtio yw sicrhau bod y bobl briodol yn y swyddi priodol i ymgymryd â gwaith Llywodraeth Cymru yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn sail i brosesau ac arferion recriwtio mae nifer o egwyddorion allweddol ac un o'r rheini yw datblygu a chamu ymlaen yn fewnol yn rhan o daith gyrfa unigolion. Mae rhoi cyfle i aelodau staff presennol ddatblygu a chamu ymlaen yn gam doeth o safbwynt cyflawni gwaith y sefydliad ac mae hefyd yn ennyn diddordeb ein staff ac yn eu hannog i aros. Mae hefyd yn sail i'r gwaith o sicrhau dilyniant a chynllunio'r gweithlu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er bod y polisi'n datgan y bydd y rhan fwyaf o'r swyddi gwag yn cael eu llenwi'n fewnol, mae recriwtio'n allanol yn bosibl ar gyfer swyddi gwag arbenigol lle nad yw'r sgiliau gofynnol ar gael yn fewnol neu ar gyfer swyddi gwag ar y lefel fynediad neu ar gyfer swyddi hyfforddiant megis prentisiaethau. Fel y nododd y cyn Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn ei ateb gwreiddiol, cafodd dau o blith y tair swydd ddiwethaf ar gyfer y tîm rheoleiddio eu penodi drwy recriwtio allanol.

Nid oes swyddi gwag o fewn y tîm rheoleiddio ar hyn o bryd. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod Argymhelliad 1, byddwn er hynny'n parhau i adolygu ein polisi ar recriwtio'n allanol wrth i swyddi gwag godi.

Yn gywir



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

cc. Yr Ysgrifennydd Parhaol